

CYNGOR Y BRIFYSGOL

COFNODION ANGHYFYNGEDIG

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 2.00 p.m. ddydd Iau 28 Tachwedd 2019 yn Ystafell Teifi, Canolfan Halliwell, Campws Caerfyrddin

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Sian Eirian
Andrew Gibson
Eifion Griffiths
Emma Hughes
Dr Gareth Hughes
Yr Athro Medwin Hughes

Arwel Ellis Owen
Eirlys Pritchard-Jones
Becky Ricketts
Geraint Roberts
Maria Stedman
Martha Warren

Yn gweinyddu:

Yr Athro Robert Brown, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig)
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Gwyndaf Tobias, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio)
Mike Williams, Coleg Sir Gâr
Catrin Beard, Cyfieithydd
Margaret Williams, Ysgrifennydd

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
19.85 Ymddiheuriadau am absenoldeb	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gareth Hughes, Victoria Provis, Rowland Jones, Dr Liz Siberry.	
19.86 Datganiadau o fuddiannau	DERBYNIODD y Cyngor y datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (CO217).	
19.87 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 27 Medi 2019	CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 27 Medi 2019 fel cofnod cywir (CO218a).	
19.88 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Hydref 2019	CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Hydref 2019 fel cofnod cywir (CO218b) yn amodol ar un newid.	Yr ysgrifennydd i newid y cofnodion
19.89 Materion yn codi a phwyntiau gweithredu	DERBYNIODD y Cyngor y tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (CO219).	
19.90 Adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Bwrdd Coleg Sir Gâr a gynhaliwyd 3 Hydref 2019 (CO220).	
19.91 Adroddiad Iechyd a Diogelwch	Byddai'r adroddiad Iechyd a Diogelwch yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.	
19.92 Adroddiad Atebolwydd Blynyddol y Ddyletswydd PREVENT	YSTYRIODD y Cyngor Adroddiad Atebolwydd y Ddyletswydd Prevent (CO222) a'i GYMERADWYO i'w lofnodi gan y Cadeirydd cyn ei gyflwyno i CCAUC.	Y Clerc i drefnu hynny
19.93 Cynllun Cydraddoldeb Strategol	DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad ar y llinell amser i'w dilyn ar gyfer datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Grŵp (2020-2024). NODODD yr aelodau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Ei bod yn ofynnol i'r Grŵp ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Grŵp diwygiedig erbyn 1 Ebrill 2020. • Bod Gweithgor wedi'i sefydlu i baratoi'r Cynllun. • Bod y gofyniad i lunio cynllun yn berthnasol yng Nghymru yn unig. 	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	<ul style="list-style-type: none"> • Y byddai'r Cynllun yn integreiddio ymateb y Grŵp i brif ganfyddiadau a themâu adroddiad diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Tackling racial harassment: Universities challenged" • Y byddai'r Cynllun yn cael ei ystyried ar lefel rheolwyr cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth. 	
19.94 Trosolwg o'r Pwyllgor Academaidd	YSTYRIODD y Cyngor y trosolwg o ystyriaethau'r cyfarfod o'r Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd 7 Tachwedd 2019 (CO223).	
19.95 Adolygiad Rhannol yr ASA o Ganolfan Ddysgu Birmingham	<p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Adolygiad Rhannol yr ASA o Ganolfan Ddysgu Birmingham (CO224).</p> <p>NODODD y Cyngor ganfyddiad yr ASA fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y Brifysgol, parthed Canolfan Ddysgu Birmingham, yn bodloni gofynion Rhan 1 yr ESC ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol; a bod • y Brifysgol, parthed Canolfan Ddysgu Birmingham, yn bodloni gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru. <p>NODODD yr aelodau fod y Brifysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd ag argymhellion yr adroddiad yn eu blaen.</p>	
19.96 Datganiad myfyrwyr blynyddol	YSTYRIODD y Cyngor Adroddiad Ansawdd Academaidd Undeb y Myfyrwyr 3 (y 'datganiad myfyrwyr blynyddol') ynghylch iechyd meddwl ynghyd ag ymateb y Brifysgol (CO225), a oedd wedi'u hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Academaidd.	
19.97 Siarter Myfyrwyr 2019 a'r Cytundeb Perthynas gydag Undeb y Myfyrwyr	CYMERADWYODD y Cyngor y Siarter Myfyrwyr a'r Cytundeb Perthynas gydag Undeb y Myfyrwyr ar gyfer 2019/20 (CO226).	
19.98 Trosolwg o'r Pwyllgor Archwilio a Risg	YSTYRIODD y Cyngor y trosolwg o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd 30 Medi 2019 (CO227).	
19.99	DERBYNIODD y Cyngor Lythyr Adolygiad Risg Sefydliadol CCAUC ac ymateb y Brifysgol. (CO228).	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
Llythyr Adolygiad Risg Sefydliadol CCAUC a'r ymateb	Adroddodd yr Is-Ganghellor y byddai'n gwneud cyflwyniad i CCAUC ynghylch yr ymateb yn ystod yr Ymweliad Sefydliadol ym mis Ionawr 2020.	
19.100 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg PCYDDS	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg PCYDDS (CO229). ADRODDODD y Clerc y rhoddid gwedd derfynol ar yr adroddiad a'i anfon ymlaen i CCAUC ar ôl derbyn llythyr rheoli'r Archwiliad Allanol a'r Datganiadau Ariannol blynyddol.	
19.101 Trosolwg o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad	YSTYRIODD y Cyngor y trosolwg o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2019 (CO230). Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad sylw at y canlynol: (a) y ffocws arwyddocaol a roddwyd i sefyllfa ariannol y Brifysgol; (b) ystyriaeth o ffocws y drafodaeth ar faterion ystadau yn dilyn diddymu'r Is-bwyllgor Strategaeth Ystadau blaenorol, a chytundeb y dylid sefydlu grŵp o lywodraethwyr y Brifysgol a CSG ar y cyd i oruchwylio datblygu'r Strategaeth Ystadau Grŵp; (c) trafodaethau ynghylch recriwtio myfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Adroddodd y swyddogion fod gweithredu'n parhau a bod swyddi'n cael eu hysbysebu o fewn pob Athrofa am staff a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r Gyfadran Gysylltiol hefyd yn cael ei defnyddio. <u>Materion pensiynau</u> Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad at faterion pensiynau ac at yr argymhelliad y dylai PCYDDS ddod yn gyflogwr cyfranogol yng nghynllun mewnlun PC (UWSS) er mwyn caniatáu i staff perthnasol PC aros o fewn y cynllun ar ôl eu trosglwyddo i PCYDDS. Cyfeiriodd hefyd at weinyddu cynlluniau pensiwn PC a PC Llambod ac argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i uno'r trefniadau llywodraethu a gweinyddu rhwng y ddau gynllun. CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhellion fel a ganlyn: (a) y bydd PCYDDS yn dod yn gyflogwr cyfranogol yng nghynllun pensiwn PC (UWSS);	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	(b) y dylai'r trefniadau llywodraethu a gweinyddu rhwng Cynllun Pensiwn PC (UWSS) a chynllun pensiwn PC Llambod gael eu huno.	
19.102 Adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Strategol	YSTYRIODD y Cyngor adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Strategol (CO231). Rhoddodd yr adroddiad drosolwg ar sut roedd y Brifysgol wedi perfformio yn erbyn ei "mesurau llwyddiant" ac roedd wedi'i ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. NODODD aelod fod cynnydd da wedi'i wneud o ran y rhan fwyaf o'r mesurau a nifer bach y meysydd lle nad oedd targedau wedi'u bodloni.	
19.103 Diweddariad ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad	DERBYNIODD y Cyngor y diweddariad ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad (C0232). Cyfeiriodd y Clerc at gwblhau'r Datganiad Monitro Blynyddol yn gysylltiedig â Chynllun 2019/20, a ddylai gael ei gyflwyno i CCAUC ym mis Ionawr 2020. Awdurdododd y Cyngor y Cadeirydd i lofnodi fersiwn terfynol y Datganiad Monitro Blynyddol ar ei ran.	
19.104 Adroddiad ariannol a llif arian parod	DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ariannol a llif arian parod. Roedd yr adroddiad wedi'i drafod yng nghyd-gyfarfod y Cynghorau ynghynt yn y diwrnod.	
19.105 Polisiâu AD	YSTYRIODD a CHYMERADWYODD y Cyngor y Polisiâu AD canlynol yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (CO234). <ul style="list-style-type: none"> • Polisi "Chwythu'r Chwiban" • Polisi Prawf 	
19.106 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau PCYDDS	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau PCYDDS ar gyfer 2018/19 (C0235).	
19.107 Trosolwg o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	YSTYRIODD y Cyngor y trosolwg o'r cyfarfod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 15 Hydref 2019 (CO236).	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	Cyfeiriodd y Clerc at y broses recriwtio am aelodau newydd annibynnol o'r Cyngor ac adroddodd fod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi cytuno y cynhelir etholiad er mwyn penodi tri llywodraethwr staff newydd tua diwedd y sesiwn gyfredol.	
19.108 Diwygiadau arfaethedig yn yr ordinhadau	<p>YSTYRIODD y Cyngor ddiwygiadau arfaethedig yn yr Ordinhadau (CO237) a oedd wedi'u hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ac a argymhellwyd i'w cymeradwyo.</p> <p>Nododd aelodau'n benodol y newidiadau arfaethedig ynghylch ethol llywodraethwyr staff a wnaethpwyd er mwyn cryfhau cyfleoedd i staff ar draws pob campws. Nodasant hefyd yr adran newydd arfaethedig yn Ordinhad IV a roddodd eglurhad ynghylch rheoli trysorlys ar draws y Grŵp. Nododd y Clerc y byddai angen rhai newidiadau yng Nghynllun Dirprwyo'r Cyngor yn sgil cymeradwyo'r ordinhad diwygiedig hwn.</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor y diwygiadau yn yr Ordinhadau.</p>	
19.109 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu PCYDDS	DERBYNIODD y Cyngor Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu PCYDDS (CO238).	
19.110 Adroddiad y Senedd	DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad llafar ar y cyfarfod diweddar o'r Senedd a gynhaliwyd 20 Tachwedd 2019. Byddai set lawn o'r cofnodion yn cael ei darparu ar gyfer y cyfarfod nesaf.	
19.111 Adroddiad Blynyddol y Senedd i'r Cyngor	<p>YSTYRIODD y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Senedd i'r Cyngor (CO239), a oedd wedi'i ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Academiaidd.</p> <p>CYTUNODD y Cyngor y gellid adrodd ar y materion canlynol, fel y'u cadarnhawyd gan y Senedd, wrth CCAUC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod safonau dyfarniadau'r Brifysgol wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol; • y cafwyd sylw parhaus ac â ffocws ar wella profiadau myfyrwyr, yr amgylchedd dysgu a deilliannau myfyrwyr, gan ddefnyddio methodolegau sy'n gadarn ac yn briodol; • y cafwyd dialog barhaus briodol rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, yn cynnwys dialog flynyddol ffurfiol o ran y Datganiad Myfyrwyr Blynyddol; 	

Eitem Agenda	Prif Bwyntiau Trafod	Cam gweithredu / penderfyniad
	<ul style="list-style-type: none"> yr adolygwyd y Siarter Myfyrwyr a'r cytundeb perthynas rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a'u cyflwyno i'r Cyngor o fewn y flwyddyn ddiwethaf; bod deilliannau arolygon myfyrwyr wedi'u craffu a bod cynlluniau gweithredu yn eu lle i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. 	
19.112 Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd	NODODD y Cyngor y gweithredu a gyflawnwyd gan y Cadeirydd ar ei ran (CO240).	
19.113 Defnydd o Sêl y Brifysgol	DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (CO241).	
19.114 Datganiadau o fuddiannau	Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod.	
19.115 Pwyllgor Taliadau	Nid oedd staff yn bresennol wrth ystyried yr eitem hon. DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd 11 Tachwedd 2019.	
19.116 Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf	Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar 30 Ionawr 2020.	

Terfynwyd y cyfarfod am 3.45 p.m.